Bannau Brycheiniog

# Datganiad Maethynnau: Cynigion datblygu sy'n golygu cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus (Gwaith Trin Dŵr Gwastraff)

**Dyddiad: Rhagfyr 2024**

## Cefndir

1. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru adroddiad yn asesu cydymffurfiad â thargedau ffosfforws ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n afonydd yng Nghymru, fel y'u diwygiwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Cyflwynodd yr adroddiad hwn asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru o faint o ffosfforws sydd mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi'i fesur yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig. Dangosodd yr adolygiad o dystiolaeth bod dros 60% o'r cyrff dŵr a aseswyd mewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn methu â bodloni'r targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosfforws. Mae crynodiadau uchel o ffosfforws yn arwain at y broses o orfaethu, a adnabyddir hefyd fel ewtroffigedd, a gall newid cydbwysedd y rhywogaethau planhigion yn ein hafonydd gan achosi niwed ecolegol sylweddol.

2. Yn benodol, yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, nododd yr asesiad bod 88% o gyrff dŵr yr afon o fewn dalgylch Afon Wysg yn methu â bodloni'r targed ffosfforws gofynnol ac o fewn dalgylch Afon Gwy methodd 67% â bodloni'r targed ffosfforws gofynnol. Nodwyd bod 0% o'r cyrff dŵr yn nalgylch Afon Tywi yn methu â bodloni'r targed ffosfforws gofynnol. Cyhoeddwyd diweddariad i dargedau ffosfforws gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Awst 2023.

3. Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru asesiad o nodweddion ansawdd dŵr eraill yn erbyn targedau mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys asesiad o amonia, a all gael effeithiau gwenwynig ar fywyd dyfrol neu fod yn llygrydd sy'n arwain at orfaethu. Er y canfuwyd bod y mwyafrif o ddalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn bodloni targedau amonia, bydd angen i Awdurdodau Cynllunio ystyried effaith datblygiad ar ollyngiadau amonia i afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

4. Deallir y bydd gwybodaeth monitro ffosfforws wedi'i diweddaru yn cael ei chyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddechrau 2025.

5. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n afonydd ac yn sensitif o ran maethynnau. Diweddarir y canllawiau hyn yn gyfnodol; mae'r fersiwn ddiweddaraf ar gael yma (https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and-development/advice-to-

planning-authorities-for-planning-applications-affecting-phosphorus-sensitive-river-special-areas-of-conservation/?lang=cy).

6. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu Awdurdodau Cynllunio Lleol bod 'camau priodol' eraill (yn unol ag Erthygl 6(2) yn cael eu cymryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â ffynonellau presennol eraill o ffosfforws ac adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i gyflwr ffafriol, o ran defnydd tir gwledig. (Nodyn Briffio Cyfoeth Naturiol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023)

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

7. Diogelir Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) – a adnabyddir hefyd fel y Rheoliadau Cynefinoedd.

8. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Awdurdod Cymwys ac mae'n rhaid iddo gynnal asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, a adnabyddir fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, i brofi a allai cynnig ar gyfer cynllun neu brosiect achosi niwed sylweddol i nodweddion dynodedig Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

9. Mae gan Lywodraeth Cymru ganllaw defnyddiol ar gyfer proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'n cyflwyno dull cyffredinol yn ogystal ag egwyddorion allweddol i'w dilyn. Mae rhai egwyddorion allweddol yn ymwneud â'r angen i fabwysiadu dull rhagofalus i wneud penderfyniadau, yr angen i wneud dyfarniadau yn seiliedig ar ffeithiau'r sefyllfa unigol a chyflwr ecolegol nodweddion y safle tra'n defnyddio'r wybodaeth wrthrychol a gwyddonol orau sydd ar gael i wneud penderfyniadau hyderus.

10. Gweler yma am ragor o wybodaeth a gwahanol gamau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd : https://www.llyw.cymru/asesiadau-rheoliadau-cynefinoedd-diogelu-safle-ewropeaidd-html.

**Dyletswydd a Dibenion Parciau Cenedlaethol**

11. Cyflwynir dibenion a dyletswydd statudol Parciau Cenedlaethol yn Neddf yr Amgylchedd 1995.

    **Ein dibenion statudol:**
    - gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
    - hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol

    **Ein dyletswydd statudol:**
    - meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol y cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol

12. Y Dibenion Statudol a'n Dyletswydd Statudol yw sail yr holl waith yr ydym yn ei wneud.

13. Mae'r ddau ddiben hyn wedi'u seilio ar Egwyddor Sandford sy'n mynnu goruchafiaeth y diben cyntaf dros yr ail mewn achosion o wrthdaro na ellir ei gymodi.

14. Yn ogystal â'r ddau ddiben statudol, mae Adran 62 Deddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ddyletswydd ar y Parc Cenedlaethol i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol. Dylid cyflawni'r ddyletswydd hon wrth fynd ar drywydd dibenion y Parc Cenedlaethol.

**Pa gamau ehangach sy'n cael eu cymryd yn nalgylchoedd afonydd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig?**

15. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi mentrau i sefydlu Byrddau Rheoli Maethynnau ar gyfer dalgylchoedd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau i wella ansawdd dŵr ar draws y Parc Cenedlaethol.
    - Sefydlwyd Partneriaeth Dalgylch Afon Wysg ac mae wedi'i lleoli yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar hyn o bryd; mae hon yn dod â chyrff statudol a phartïon â buddiant ynghyd o amgylch nod cyffredin o adfer iechyd a chydnerthedd ecolegol Afon Wysg a'i dalgylch.
    - Cynrychiolir Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar Fwrdd Rheoli Maethynnau ac yng Ngrŵp Swyddogion Statudol Afon Gwy.
    - Sefydlwyd Bwrdd Rheoli Maethynnau ar gyfer Afon Tywi yn rhan o baratoi Cynllun Rheoli Maethynnau Gorllewin Cymru, eto â chynrychiolaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

16. Yn ogystal â hyn:
    - Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi lansio Prosiect Adfer Dalgylch Gwy Uchaf yn ddiweddar, â nodau i ddiogelu rhywogaethau a gwella cynefinoedd trwy fynd i'r afael â phwysau amrywiol sy'n effeithio ar yr afon a bydd cyflawni gwelliannau yn y dalgylch uchaf o fudd i'r system afonydd gyfan.
    - Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cwblhau Offeryn Cyfrifo Maethynnau Cymru Gyfan i gynorthwyo gydag asesu effeithiau. Mae Dewislen Mesurau Lliniaru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-uwchgynhadledd-llygredd-afonydd.

**Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff a Thrwyddedau Amgylcheddol**

17. Ceir Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff niferus o wahanol feintiau yn nalgylchoedd y dair Ardal Gadwraeth Arbennig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae pob Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn gweithredu o dan drwydded amgylcheddol sy'n cael ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

18. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal adolygiad o drwyddedau cwmnïau dŵr presennol ar gyfer y Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff mwy (h.y. y rhai â llif tywydd sych, gollyngiad elifion terfynol o fwy nag 20$m^3$ y dydd) yn erbyn targedau ffosfforws diwygiedig.

19. Mae gwybodaeth gryno Cyfoeth Naturiol Cymru am y cyfyngiadau ffosfforws ar drwyddedau amgylcheddol ar gyfer gollyngiadau gweithfeydd trin dŵr gwastraff hefyd ar gael: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and-development/phosphorus-limits-on-environmental-permits-for-waste-water-treatment-work-discharges/?lang=cy

20. Os hoffech ragor o wybodaeth, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw Cofrestr Gyhoeddus o wybodaeth trwyddedau sydd ar gael yma: https://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/public-register-environmental-permitting/?lang=cy

**Beth mae canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei adolygu ar gyfer cysylltiadau â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus pan fo'r drwydded amgylcheddol wedi cael ei hadolygu yn erbyn targedau maethynnau ac ansawdd dŵr diwygiedig?**

21. Pan fo trwydded Gwaith Trin Dŵr Gwastraff wedi cael ei hadolygu yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig ac, mewn rhai achosion, ei newid yn unol â hynny, bydd datblygiadau newydd sy'n cysylltu â'r garthffos gyhoeddus gysylltiedig yn dal i fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er y dylai effeithiau maethynnau cysylltiadau newydd gael eu hystyried **ar sail achosion unigol**, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn hysbysu ei bod yn **debygol** y **gellid** dod i gasgliad o ddim effaith arwyddocaol yng nghyd-destun effeithiau ansawdd dŵr pan fo'r ymgymerwr carthffosiaeth yn cadarnhau bod y canlynol yn berthnasol:
    - bod capasiti i drin dŵr gwastraff ychwanegol o'r datblygiad arfaethedig o fewn cyfyngiadau trwydded amgylcheddol ddiwygiedig (sy'n golygu cyfyngiadau maethynnau â dyddiadau gweithredol ar unwaith ac ar gyfer rhai trwyddedau, cyfyngiadau maethynnau mwy llym â dyddiadau gweithredol yn y dyfodol), a
    - bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff wrthi'n gweithredu mewn cydymffurfiad ag amodau trwydded neu y bydd cyn i gysylltiadau newydd gael eu gwneud, pan fo amodau trwydded yn cynnwys y rhai ar gyfer llif, safonau elifion terfynol a llif a basiwyd ymlaen[1] (ar gyfer gwaith â thanciau storm neu orlif storm uniongyrchol).

22. Er, dylid nodi y gallai fod angen i gwmpas Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fod yn ehangach na chwmpas yr adolygiad trwydded ac ystyried nodweddion eraill safle, gwybodaeth newydd neu newidiadau i amgylchiadau.
23. Bydd pa un a oes lliniaru penodol yn ofynnol ar gyfer datblygiad penodol yn cael ei ystyried **ar sail achosion unigol, yn rhan o broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn hysbysu, **pan fo'n briodol**, bod Awdurdodau Cynllunio yn cael eu cynghori i gyflwyno amod ar amseriad datblygiad i gyfateb â chyflawni gwelliannau yn y dyfodol mewn gwaith trin dŵr gwastraff gan gynnwys y rhai sydd wedi'u trefnu o dan Gynllun Rheoli Asedau. Gellid defnyddio

[1] Diffinnir Llif a Basiwyd Ymlaen fel cyfradd llif (litrau yr eiliad) y dŵr gwastraff sy'n cyrraedd o orlif o'i system gasglu i fyny'r afon ac yn cael ei basio ymlaen i'r llif parhad. Mae'n rhaid cynnal Llif a Basiwyd Ymlaen tra bydd y digwyddiad gollwng yn para, neu ystyrir yr aethpwyd y tu hwnt i gapasiti hydrolig y garthffos i lawr yr afon (yn unol ag amod trwydded unigol y gorlif storm) [yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru: GN066: Sut i ddosbarthu perfformiad gorlif storm]

amodau Grampian[2] ond, fel mesur lliniaru penodol i ddatblygiad, dylid ystyried hyn ar sail achosion unigol ar adeg Asesiad Priodol. Pan fo gwelliannau yn y dyfodol yn ofynnol i alluogi gwaith trin i fodloni cyfyngiadau trwydded a adolygwyd, **gellir dod i gasgliadau o ddim effaith arwyddocaol neu ddim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle dim ond os oes sicrwydd ar yr adeg y mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal y bydd y gwelliannau hyn a gynigir yn y Cynllun Rheoli Asedau yn cael eu rhoi ar waith** (geiriau bras Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau ar gyfer pwyslais).

24. Gweler canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru am ragor o wybodaeth.

## Y Sefyllfa Maethynnau mewn rhai aneddiadau unigol

### Beth yw dull y Parc Cenedlaethol o ran cysylltiadau â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus pan fo'r drwydded amgylcheddol <u>wedi ei hadolygu</u> yn erbyn targedau maethynnau diwygiedig?

25. Fel y nodwyd uchod, mae canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gwneud yn eglur bod angen ystyried cynigion ar sail achosion unigol. Mae egwyddorion allweddol cynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn ymwneud â'r angen i ddull rhagofalus gael ei fabwysiadu o wneud penderfyniadau, yr angen i wneud dyfarniadau yn seiliedig ar ffeithiau'r sefyllfa unigol a chyflwr ecolegol y safle tra'n defnyddio'r wybodaeth wrthrychol a gwyddonol orau sydd ar gael i hysbysu penderfyniadau. Hefyd, fel Awdurdod Parc Cenedlaethol, mae angen rhoi ystyriaeth briodol i'n dyletswydd a'n dibenion statudol (mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: [https://bannau.cymru/yr-awdurdod/amdanom-ni/ffeithiau-a-ffigurau/](https://bannau.cymru/yr-awdurdod/amdanom-ni/ffeithiau-a-ffigurau/)). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ein hysbysu bod gwaith ar fesurau ehangach yn cael ei wneud ar draws dalgylchoedd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i fynd i'r afael â'r cyfraniadau maethynnau o ffynonellau eraill.
26. Gyda'r materion uchod mewn golwg, rydym yn nodi isod dull presennol yr Awdurdod o ran y trwyddedau Gwaith Trin Dŵr Gwastraff a adolygwyd yn erbyn targedau maethynnau ac ansawdd dŵr diwygiedig hyd yma; mae hyn yn cynnwys canllawiau penodol ar ein dull yn aneddiadau mwy y Parc Cenedlaethol ar gyfer dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd Gwy ac Wysg:

***Aberhonddu***

*Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru*

27. Adolygwyd Trwydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac fe'i cyhoeddwyd ar 22 Tachwedd 2023. Mae gan y drwydded derfyn ffosfforws o 5mg/litr bellach, yn weithredol o 28 Tachwedd 2023 a bydd terfyn ffosfforws mwy llym o 2mg/litr yn cael ei orfodi o 31 Rhagfyr 2025.

28. Mae Dŵr Cymru hefyd wedi rhoi ymrwymiad ysgrifenedig i roi'r terfyn ffosfforws o 2mg/litr ar waith erbyn mis Gorffennaf 2024, cyn y dyddiad gofynnol; serch hynny, caiff sicrwydd gweithredu ei sicrhau drwy'r dyddiad trwyddedu o 31 Rhagfyr 2025.

---

[2] Amodau negyddol sy'n atal gweithrediad datblygiad a ganiatawyd trwy ganiatâd cynllunio tan i ryw gam sy'n ofynnol o dan yr amod wedi cael ei gymryd yw amodau Grampian. Mae'r term yn deillio o Gyngor Rhanbarthol Grampian yn erbyn Dinas Aberdeen (1984).

29. Nid oedd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu yn cydymffurfio o safbwynt Llif a Basiwyd Ymlaen, ond rhoddwyd cynllun ar waith i fynd i'r afael â hyn; mae offer monitro yn dal i gael ei osod er mwyn i Dŵr Cymru ddangos cydymffurfiad yn ystod 2025.

30. Mae'r drwydded yn cynnwys terfyn amonia o 15mg/litr yn weithredol o 28 Tachwedd 2023. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn cydymffurfio â'r terfyn hwn.

*Dull y Parc Cenedlaethol*

31. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr ecolegol y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu i mewn. Byddwn felly'n cynnal Asesiad Priodol mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ystyried materion ar sail achosion unigol. Mae ymatebion ymgynghori diweddar gan Dŵr Cymru ar geisiadau cynllunio yn cadarnhau bod capasiti ar waith i hwyluso'r dŵr gwastraff ychwanegol gan gydymffurfio â'r terfynau trwydded diwygiedig a bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn gweithredu yn unol ag amodau'r drwydded ar hyn o bryd neu y bydd yn gwneud hynny cyn gwneud cysylltiadau newydd, pan fo amodau trwydded yn cynnwys y rhai ar gyfer llif, safonau elifion terfynol a llif a basiwyd ymlaen. Cyn belled ag y bo hyn yn parhau i gael ei gadarnhau, rydym yn rhagweld yn y mwyafrif o achosion y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn cyn 31 Rhagfyr 2025, yn amodol ar amodau o fath Grampian sy'n gysylltiedig â'r dyddiad hwn. Mae hyn oherwydd lefelau'r ymyriadau â gollyngiadau dŵr gwastraff yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu o ganlyniad i leihau ffosfforws h.y. gorfodi terfyn ffosfforws a fydd yn cael ei wneud yn fwy llym wedyn yn ystod oes caniatâd cynllunio arferol, yn ogystal â gwneud y gwaith cydymffurfiad ar y Llif a Basiwyd Ymlaen.

***Crucywel***

*Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru*

32. Adolygwyd Trwydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Crucywel gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac fe'i cyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2024. Mae gan y drwydded derfyn ffosfforws o 5mg/litr bellach, yn weithredol o 7 Chwefror 2025.

33. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Crucywel yn cydymffurfio ar hyn o bryd o safbwynt Llif a Basiwyd Ymlaen.

34. Mae'r drwydded yn cynnwys terfyn amonia o 20mg/litr yn weithredol o 7 Chwefror 2024. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn cydymffurfio â'r terfyn hwn.

*Dull y Parc Cenedlaethol*

35. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr

ecolegol y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Crucywel i mewn. Byddwn felly'n cynnal Asesiad Priodol mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ystyried materion ar sail achosion unigol. Mae ymatebion ymgynghori diweddar gan Dŵr Cymru ar geisiadau cynllunio yn cadarnhau bod capasiti cyfyngedig ar gyfer llifoedd draenio dŵr budr ychwanegol i'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff; bydd y capasiti hwn yn cynyddu ar ôl cyflawni gwaith gwella erbyn 7 Chwefror 2025. Mae Dŵr Cymru hefyd yn hysbysu bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn gweithredu yn unol ag amodau'r drwydded ar hyn o bryd neu y bydd yn gwneud hynny cyn gwneud cysylltiadau newydd, pan fo amodau trwydded yn cynnwys y rhai ar gyfer llif, safonau elifion terfynol a llif a basiwyd ymlaen. Cyn belled ag y bo hyn yn parhau i gael ei gadarnhau, rydym yn rhagweld yn y mwyafrif o achosion y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn cyn 7 Chwefror 2025, yn amodol ar amodau o fath Grampian. Mae hyn oherwydd lefel yr ymyriadau sy'n cael eu cyflwyno o ran amodau ffosfforws (h.y. cyflwyno terfyn ffosfforws yn ystod oes caniatâd cynllunio arferol a Llif a Basiwyd Ymlaen sy'n cydymffurfio).

***Aberbaiden***

*Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru*

36. Adolygwyd Twydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberbaiden gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac fe'i hail-gyflwynwyd ar 23 Ionawr 2024. Mae gan y drwydded derfyn ffosfforws o 5mg/litr bellach, yn weithredol o 30 Ionawr 2025.

*37.* Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberbaiden yn cydymffurfio ar hyn o bryd o safbwynt llif a basiwyd ymlaen gan fod Dŵr Cymru wedi ymgymryd â chynllun yn ddiweddar i ddatrys achos o ddiffyg cydymffurfiad sylweddol ymddangosiadol.

38. Mae'r drwydded yn cynnwys terfyn amonia o 15mg/litr, hefyd yn weithredol o 30 Ionawr 2024. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau y bydd y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn cydymffurfio â'r terfyn hwn.

*Dull y Parc Cenedlaethol*

39. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr ecolegol nodweddion y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberbaiden i mewn. Byddwn felly'n cynnal Asesiad Priodol mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ystyried materion ar sail achosion unigol. Mae ymatebion ymgynghori diweddar gan Dŵr Cymru ar geisiadau cynllunio yn cadarnhau bod capasiti i hwyluso'r dŵr gwastraff ychwanegol yn unol â'r cyfyngiadau trwydded diwygiedig a bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn gweithredu yn unol ag amodau'r drwydded ar hyn o bryd neu y bydd yn gwneud hynny cyn gwneud cysylltiadau newydd, pan fo amodau trwydded yn cynnwys y rhai ar gyfer llif, safonau elifion terfynol a llif a basiwyd ymlaen. Cyn belled ag y bo hyn yn parhau i gael ei gadarnhau, rydym yn rhagweld yn y mwyafrif o achosion y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn cyn 30 Ionawr 2025, yn

amodol ar amodau o fath Grampian. Mae hyn oherwydd lefel yr ymyriadau sy'n cael eu cyflwyno o ran lleihau ffosfforws yn y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (h.y. cyflwyno terfyn ffosfforws yn ystod oes caniatâd cynllunio arferol a chyflawni gwaith diweddar sylweddol ar y Llif a Basiwyd Ymlaen).

**Llan-ffwyst**

*Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru*

40. Adolygwyd Trwydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llan-ffwyst gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac fe'i cyhoeddwyd ar 6 Tachwedd 2023. Mae gan y drwydded derfyn ffosfforws o 5mg/litr bellach, yn weithredol o 13 Tachwedd 2023 a bydd terfyn ffosfforws mwy llym o 2mg/litr yn cael ei orfodi o 31 Rhagfyr 2025.

41. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llan-ffwyst yn cydymffurfio ar hyn o bryd o safbwynt llif a basiwyd ymlaen.

42. Mae'r drwydded yn cynnwys terfyn amonia o 20mg/litr, yn weithredol o 13 Tachwedd 2024. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn cydymffurfio â'r terfyn hwn.

*Dull y Parc Cenedlaethol*

43. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr ecolegol nodweddion y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llan-ffwyst i mewn. Byddwn felly'n cynnal Asesiad Priodol mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ystyried materion ar sail achosion unigol. Mae ymatebion ymgynghori diweddar gan Dŵr Cymru ar geisiadau cynllunio yn cadarnhau bod capasiti ar gael i hwyluso'r dŵr gwastraff ychwanegol yn unol â chyfyngiadau trwydded diwygiedig a'r rhwydwaith carthffosydd a bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn gweithredu yn unol ag amodau'r drwydded ar hyn o bryd neu y bydd yn gwneud hynny cyn gwneud cysylltiadau newydd, pan fo amodau trwydded yn cynnwys y rhai ar gyfer llif, safonau elifion terfynol a llif a basiwyd ymlaen. Cyn belled ag y bo hyn yn parhau i gael ei gadarnhau, rydym yn rhagweld yn y mwyafrif o achosion – oherwydd lefel y gwelliant sy'n cael ei gyflwyno o ran lleihau ffosfforws yn y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn – y byddwn yn gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn cyn 31 Rhagfyr 2025, yn amodol ar amodau o fath Grampian. Mae hyn oherwydd lefel yr ymyriadau sy'n cael eu cyflwyno o ran lleihau ffosfforws yn y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (h.y. cyflwyno terfyn ffosfforws ac yna eu gwneud yn fwy llym eto yn ystod oes caniatâd cynllunio arferol a Llif a Basiwyd Ymlaen sy'n cydymffurfio).

***Talgarth***

*Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru*

44. Adolygwyd Trwydded Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talgarth gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac fe'i hail-gyflwynwyd ar 14 Awst 2023. Nid yw'r drwydded yn diwygio'r terfyn ffosfforws o 2mg/litr ar y drwydded tan 31 Mawrth 2030

pan fydd angen i Dŵr Cymru fod wedi rhoi cynllun ar waith yng Nghynllun Rheoli Asedau 8 i fodloni'r terfyn mwy llym o 0.25mg/litr.

45. Nid yw Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talgarth yn cydymffurfio o safbwynt llif a basiwyd ymlaen ar hyn o bryd.

46. Mae Dŵr Cymru wedi ymgymryd â chynllun yn ddiweddar i gynorthwyo â chydymffurfiad o safbwynt llif a basiwyd ymlaen, ond rydym yn deall bod rhai problemau wrthi'n cael eu datrys felly nid oes prawf cydymffurfio wedi'i gadarnhau eto.

47. Mae'r drwydded yn cynnwys terfyn amonia o 8mg/litr, yn weithredol o 14 Awst 2023.

*Dull y Parc Cenedlaethol*

48. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio newydd. Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol sydd ar gael a chan fabwysiadu dull rhagofalus sy'n cymryd i ystyriaeth cyflwr ecolegol nodweddion y safle a thargedau ffosfforws ar gyfer y corff dŵr, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talgarth i mewn. Sylwer bod hyn yn cynnwys datblygiadau yn Llan-gors ac aneddiadau bach eraill, yn ogystal â Thalgarth. Byddwn felly'n cynnal Asesiad Priodol mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ystyried materion ar sail achosion unigol. Y cyngor diweddar gan Dŵr Cymru yw bod capasiti i hwyluso'r dŵr gwastraff ychwanegol yn unol â'r terfyn ffosfforws ar y drwydded ddiwygiedig, ond ceir capasiti hydrolig annigonol i fodloni gofynion cydymffurfio llif a basiwyd ymlaen. Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru gadarnhau cydymffurfiad llif a basiwyd ymlaen yn ystod 2025. Fodd bynnag, nid oes unrhyw newid o hyd i'r gostyngiad i ffosfforws yn y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff tan 31 Mawrth 2030 sydd y tu allan i oes caniatâd cynllunio arferol ac a nodwyd hefyd yn rhan o Gynllun Rheoli Asedau 8 nad yw wedi cychwyn eto. Mae hyn yn codi pryder ynghylch priodoldeb amod o fath Grampian na ddylid ei orfodi os nad oes posibilrwydd rhesymol y bydd y cam gofynnol yn cael ei gyflawno o fewn y terfyn amser a orfodir gan y caniatâd (5 mlynedd fel rheol).
49. Mae Adroddiad Cydymffurfiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod gan gorff dŵr hwn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Gwy darged ffosfforws o 25 $\mu g\ l^{-1}$, ond yn methu'r targed hwn â chanolrif blynyddol o 77 $\mu g\ l^{-1}$. Mae hon yn lefel sylweddol o fethiant. Felly, nid ydym yn rhagweld gallu cymeradwyo datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau preswyl newydd â'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn **ar hyn o bryd** gan ddefnyddio amod Grampian. Felly, byddai angen i gynigion datblygu o'r fath gynnwys mesurau lliniaru penodol i safleoedd derbyniol o ddangos niwtraliaeth ffosfforws a maethynnau. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i gynhyrchu offeryn cyfrifo maethynnau i gynorthwyo datblygwyr i gyfrifo eu cyfraniadau ffosfforws presennol ac arfaethedig i ddangos niwtraliaeth maethynnau.
50. Byddwn yn parhau i adolygu'r dull uchod. Bydd cyhoeddi gwybodaeth cydymffurfiad ffosfforws ac ansawdd dŵr newydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddechrau 2025 o gymorth i ddeall yn well trywydd unrhyw welliannau i ansawdd dŵr yn afon Gwy ac felly lefel y sicrwydd y gallem ei phriodoli i Asesiad Priodol yn y lleoliad penodol hwn.

**Aneddiadau Eraill**

*Cyd-destun Adolygiad Trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru*

51. Adolygwyd y Trwyddedau Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff ar gyfer yr aneddiadau canlynol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac fe'i hail-gyflwynwyd:

| **Anheddiad** | **Dyddiad Ail-gyflwyno Trwydded** | **Cyd-destun y Drwydded** |
|---|---|---|
| Libanus | 08/12/2023 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 15/12/2023 â hwn yn cael ei lymhau i 2mg/l ar 31/03/2030<br>• Terfyn amonia 20mg/l |
| Gwersyll y Fyddin Pontsenni | 18/01/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 25/01/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 3.5mg/l ar 31/03/2030<br>• Terfyn amonia 10mg/l |
| Bwlch Llangynidr | 13/03/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 20/03/2024<br>• Terfyn amonia: am. (terfyn o 20mg/l yn weithredol o 31/03/2030) |
| Llanfrynach | 18/03/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 28/01/2028 â hwn yn cael ei lymhau i 2.5mg/l ar 31/03/2030<br>• Terfyn amonia 7mg/l |
| Trecastell | 21/12/2023 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 03/01/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 0.75mg/l ar 31/03/2030<br>• Terfyn amonia 30mg/l |
| Tal-y-bont | 14/02/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 21/02/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 1mg/l ar 31/03/2030<br>• Terfyn amonia 5mg/l |
| Llansbyddid | 21/12/2023 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 03/01/2024<br>• Terfyn amonia: am. |
| Llanbedr | 19/06/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 26/06/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 1mg/l ar 31/03/2032<br>• Terfyn amonia 7.5mg/l |
| Groesffordd | 27/06/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 28/01/2028<br>• Terfyn amonia: am. |
| Cradoc | 24/06/2024** | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 01/07/2025<br>• Terfyn amonia: am. |
| Coedwaungaer | 24/06/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 01/07/2024 |

| Anheddiad | Dyddiad Ail-gyflwyno Trwydded | Cyd-destun y Drwydded |
|---|---|---|
| | | • Terfyn amonia: am. |
| Aberclydach | 24/05/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 23/05/2025<br>• Terfyn amonia: amh. |
| Bryn-mawr | 11/05/2023 | • Terfyn ffosfforws o 1mg/l yn weithredol o 31/12/2023<br>• Terfyn amonia 6mg/l |
| Pandy | 06/12/2023 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 26/01/2028<br>• Terfyn amonia 20mg/l |
| Llanigon | 28/06/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 05/07/2024 â hwn yn cael ei lymhau i 0.5mg/l ar 31/03/2030<br>• Terfyn amonia: am. |
| Myddfai | 18/01/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 25/01/2024<br>• Terfyn amonia 5mg/l |
| Ffair-fach | 26/02/2024 | • Terfyn ffosfforws o 5mg/l yn weithredol o 04/03/2024<br>• Terfyn amonia 10mg/l |

***Fe'n hysbyswyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru bod y Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff hyn yn cael eu monitro gan Dŵr Cymru ac y gallent fod yn destun amrywiad a sefydlwyd gan y gweithredwr i oedi gweithrediad y terfyn ffosfforws.*

52. Rydym wedi ysgrifennu at Dŵr Cymru i ddarganfod a yw pob un o'r Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff uchod yn cydymffurfio ai peidio o safbwynt llif a basiwyd ymlaen. Ar ôl i ni ddarganfod hyn, byddwn mewn sefyllfa well i gadarnhau safbwynt y Parc Cenedlaethol o ran datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â'r Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff hyn. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y trwyddedau Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hynny sydd â therfynau amonia yn cydymffurfio ar hyn o bryd.

*SYLWER: BYDD Y DULL UCHOD YN PARHAU I GAEL EI ADOLYGU A'I DDIWEDDARU PE BAI GWYBODAETH NEWYDD YN DOD I'R AMLWG.*

**Beth yw'r sefyllfa o ran Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll?**

53. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll wedi'i leoli yn Lloegr ond yn gwasanaethu datblygiad sydd wedi'i leoli yn y Gelli Gandryll sydd wedi'i leoli yng Nghymru. Mae ardaloedd o dir sy'n cysylltu â'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn hefyd wedi'u lleoli ar draws tri Awdurdod Cynllunio Lleol – Cyngor Swydd Henffordd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Sir Powys – er bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth bresennol wedi'i lleoli o fewn ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

54. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn gweithio gyda'r cyrff cadwraeth natur priodol yng Nghymru a Lloegr (Natural England a Cyfoeth Naturiol

Cymru), mewn cysylltiad ag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos, sydd wedi cyflwyno'r llythyrau canlynol Llythyr Natural England – Y Gelli
Llythyr Cyfoeth Naturiol Cymru – Y Gelli; mae'r rhain yn esbonio sut y bydd datblygiadau sy'n bwriadu cysylltu â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll yn cael eu hystyried. Mae'n cadarnhau bod y darn o'r farn i lawr yr afon o Waith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll yn bodloni ei dargedau ffosfforws ac nad oes angen i unrhyw reolau niwtraliaeth maethynnau gael eu rhoi ar waith.

55. Cyflwynir y Drwydded Amgylcheddol ar gyfer y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac ni fydd yn cael ei hadolygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gweithredir y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff gan Dŵr Cymru ac mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ysgrifennu at Dŵr Cymru felly; mae wedi cadarnhau nad oes unrhyw ofyniad terfyn ffosfforws ar gyfer y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff.

*Dull y Parc Cenedlaethol*

56. Yn seiliedig ar gyngor Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru a roddwyd i ni yn ogystal ag ar yr wybodaeth gyfredol sydd ar gael sy'n dangos bod y corff dŵr hwn yn pasio ei dargedau ffosfforws, rydym yn rhagweld yn y mwyafrif llethol o achosion sgrinio datblygiadau sy'n cynnig cysylltiadau newydd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y Gelli Gandryll allan. Mae hyn ar y sail na ystyrir bod y cysylltiadau hyn yn debygol o achosi'r safle dynodedig i droi'n anffafriol neu fethu'r targed maethynnau neu ddod yn agos at ei fethu mewn unrhyw leoliad sy'n bwysig ar gyfer cynnal nodweddion buddiant dynodedig sensitif y safle Ewropeaidd. Cyfathrebwyd y safbwynt sgrinio hwn i Natural England sydd wedi dynodi nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r safbwynt hwn.
57. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn parhau i ymgynghori â Dŵr Cymru ar geisiadau cynllunio o'r fath.

**Beth mae'r canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u diweddaru hyn yn ei olygu o ran cysylltiadau â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus lle nad yw'r drwydded amgylcheddol wedi cael ei hadolygu yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig?**

58. Mae'r holl drwyddedau amgylcheddol ar gyfer y Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff mwy wedi cael eu hadolygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru bellach. Nid yw mwyafrif y trwyddedau ar gyfer Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff llai – sydd â llifau tywydd sych sy'n llai nag 20m$^3$ y dydd – wedi cael eu hadolygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac nid oes unrhyw gynllun iddynt gael eu hadolygu ar hyn o bryd.

59. Pan nad yw trwydded ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff wedi cael ei hadolygu yn erbyn y targedau ansawdd dŵr diwygiedig eto, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori y dylai Awdurdodau Cynllunio gynnal Asesiad Priodol o gysylltiadau newydd â charthffos gyhoeddus gan gymryd i ystyriaeth y targedau ffosfforws diwygiedig ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afon a thargedau corff dŵr lleol ar gyfer amonia. Mae'n debygol y bydd angen i gynigion datblygu sy'n cysylltu â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff o'r fath ddangos niwtraliaeth maethynnau er mwyn dod i gasgliad o ddim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y mater ar sail achosion unigol drwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd; fodd bynnag, mae penderfyniad cadarnhaol ar geisiadau cynllunio yn **annhebygol** yn absenoldeb

gwybodaeth sy'n ddigon pendant, â mesurau lliniaru penodol i safle i sicrhau niwtraliaeth neu welliant maethynnau yn y senario hwn.

**Ffynonellau o wybodaeth bellach:**
Mae Asesiadau Cydymffurfiad Ffosfforws ac Ansawdd Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael yma:
https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/?lang=cy

Mae rhagor o wybodaeth am Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma: https://www.llyw.cymru/asesiadau-rheoliadau-cynefinoedd-diogelu-safle-ewropeaidd-html

Cynhaliwyd dadansoddiad gan Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall y gwahanol elfennau sy'n cyfrannu at y llwyth ffosfforws i'n hafonydd – y cyfeirir ato hefyd fel SAGIS (System Gwybodaeth Ddaearyddol sy'n Dosrannu Ffynhonnell). Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma: https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/river-water-quality/sac-rivers